



Rhowch eich gyrfa ar garlam

Rydym ni'n chwilio am fyfyrwyr a graddedigion dawnus ag anabledd a chyflyrau hirdymor. Os ydych chi'n un ohonynt, ymunwch â Change 100 i ddatgloi eich potensial chi.

Helo

Leonard Cheshire ydyn ni – yn cefnogi unigolion i fyw, dysgu a gweithio mor annibynnol ag y dewisant, beth bynnag yw eu gallu. Wedi'i arwain gan bobl â phrofiad o anabledd, rydym wrth wraidd bywyd lleol – yn agor drysau i gyfleoedd, dewis a chymorth mewn cymunedau ledled y byd.

Beth yw Change 100?

Change 100 yw ein rhaglen flaenllaw o leoliadau â thâl dros yr haf, datblygu proffesiynol a mentora. Fe'i lluniwyd i gefnogi datblygiad gyrfa myfyrwyr prifysgol a graddedigion diweddar dawnus gydag unrhyw anabledd neu gyflwr hirdymor, gan gynnwys:

- Anawsterau niwrolegol megis dyslecsia, dyspracsia, awtistiaeth, ADHD
- Namau symudedd
- Namau synhwyraidd
- Cyflyrau tymor hir megis IBS, diabetes, clefyd Crohn, epilepsi, blinder cronig
- Cyflyrau iechyd meddwl megis pryder, iselder ysbryd, anhwylder deubegynol, OCD, anorecsia

Os ydych chi'n ansicr a ydych yn gymwys, e-bostiwch ni: change100applications@leonardcheshire.org

I bwy mae Change 100?

I ymgeisio am Change 100, rhaid i chi fodloni'r holl feini prawf canlynol:

- Bod ag anabledd neu gyflwr hirdymor fel y'u diffiniwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- Bod yn eich blwyddyn olaf neu olaf ond un o radd prifysgol israddedig neu ôl-raddedig, neu wedi graddio yn 2020 neu 2021. Derbynnir unrhyw bwnc gradd
- Wedi ennill 2:1 neu 1af yn eich gradd israddedig, neu'n disgwyl ennill hynny*
- Bod yn gymwys i weithio yn y DU am hyd y lleoliad gwaith dros yr haf
- Bod ar gael i fynd i ganolfan asesu yn bersonol ym mis Ionawr neu fis Chwefror

*Os yw amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'ch anabledd neu'ch cyflwr yn/wedi effeithio ar eich perfformiad academiaidd, caiff hyn ei ystyried. Cysylltwch â ni i drafod hyn.





Cyflogwyr Change 100

Rydym ni wedi ymuno â sefydliadau partner sy'n credu nad yw anabledd yn rhwystr i yrfa ddisglair.

Mae'r cyflogwyr rydym ni'n gweithio gyda nhw'n gwerthfawrogi gwerth y gall myfyrwyr a graddedigion diweddar anabl a dawnus ei gyfrannu at eu sefydliadau.

Maent yn cydnabod pwysigrwydd y sgiliau a'r ymddygiad y mae interniaid Change 100 yn eu cynnig, megis cymhwysedd, datrys

problemau, croesawu heriau a hunanymwybyddiaeth. Mae interniaid Change 100 eisoes wedi creu argraff dda ar dros 160 o gyflogwyr blaenllaw.

Rydym ni'n parhau i feithrin partneriaethau newydd ag amrywiaeth eang o sefydliadau urddasol i gynnig cyfleoedd am leoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys cyflogwyr corfforaethol o ddiwydiannau amrywiol, a sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector.

Rhai o'n partneriaid cefnogi

ASOS

AutoTrader

BARCLAYS

BBC STUDIOS



enterprise



GREENPEACE

Heathrow



HIPCNOIS



NHS
England



ROYAL BERKSHIRE
FIRE AND RESCUE SERVICE
Enabling people to lead safe and fulfilling lives

SKANSKA



US
UNIVERSITY
OF SUSSEX



Cefnogaeth a datblygiad proffesiynol

Pan gynigir lleoliad i chi, byddwn yn gweithio gyda chi a'ch cyflogwr i sicrhau ei fod yn deall eich anabledd ac unrhyw addasiadau a fydd eu hangen arnoch.

Yn ystod eich interniaeth, cewch gefnogaeth gan eich cymheiriaid, mentor yn eich sefydliad a thîm Change 100. Ar ôl i'ch lleoliad ddod i ben, yna byddwn yn parhau i weithio gyda chi drwy ein rhaglen ddatblygu.

Rhaglen ddatblygu Change 100

Mae ein rhaglen ddatblygiad proffesiynol yn cyfuno gwaith grŵp â dysgu a arweinir gennych chi, ac mae wedi'i llywio gan eich nodau datblygu penodol a phersonol chi. Mae pynciau'n cynnwys gosod targedau, rhwydweithio, manteisio i'r eithaf ar fentora, rheoli eich anabledd yn y gweithle a datgelu.

Drwy gyfuno lefel uchel o gefnogaeth â lefel uchel o her, mae agwedd ddatblygu Change 100 yn helpu i sicrhau y byddwch yn manteisio i'r eithaf ar eich amser ar y rhaglen, gan eich paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eich gyrfa. Byddwn yn cynnal digwyddiad egluro yn gynnar ym mis Mehefin cyn i'r lleoliadau ddechrau, wedi'i ddilyn gan sesiynau datblygu proffesiynol misol tan fis Rhagfyr 2022.

“Doedd gen i ddim syniad y byddwn i'n cael cymaint o hwyl wrth weithio, neu y byddwn i'n magu cymaint o hyder ag sydd gen i. Hefyd, ni sylweddolais pa mor ddefnyddiol fyddai sesiynau datblygiad proffesiynol Change 100, ond rwy'n ddiolchgar o gael y wybodaeth a'r profiad hwnnw i dynnu arnynt yn y dyfodol.”

Emma, Intern
National Lottery
Community Fund

Proses dewis Change 100

Y ffurflen gais

Bydd angen i chi gwblhau cais ar-lein rhwng 22 Medi 2021 a 6 Ionawr 2022. Fel arall, gallwch gyflwyno cais ysgrifenedig neu ar ffurf fideo, gan ateb yr un cwestiynau a restrir ar y ffurflen gais.

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'ch cais, neu os hoffech chi'r ffurflen gais mewn fformat arall, e-bostiwch: change100applications@leonardcheshire.org neu ffoniwch: 020 3242 0299.

Evch i: leonardcheshire.org/change100 i gychwyn eich cais drwy ddewis 'gwneud cais'.

Ein canolfannau asesu

Mae ein canolfannau asesu wedi'u cynllunio i alluogi i ymgeiswyr ddisgleirio a sicrhau tegwch a chydraddoldeb o ran cyfleoedd.

Nid yw ein proses ymgeisio yn cynnwys unrhyw brofion seicometrig o gwbl.

Byddwn yn ymgysylltu â chi cyn y sesiwn yn y ganolfan asesu i benderfynu ar unrhyw addasiadau sy'n ofynnol i sicrhau y gallwch berfformio i'ch gallu llawn.*

Bydd cynrychiolwyr o dîm Change 100 yn bresennol i'ch cefnogi ac asesu eich cryfderau a'r meysydd y dylech chi eu datblygu, mewn cydweithrediad â'r cyflogwyr derbyn.

*Mae'n bosib y cynhelir canolfannau asesu ar-lein yn 2022.





Paru ymgeiswyr

Os ydych chi'n llwyddiannus yn ein proses recriwtio, byddwn yn ceisio eich paru ag un o'n cyflogwyr partner ar sail eich diddordebau a'ch lleoliad. Anogwn i chi fod yn feddwl agored am eich lleoliad gan y bydd ein holl rolau'n cynnig y cyfle am ddatblygiad personol.

Dylai ymgeiswyr nodi nad yw bod yn llwyddiannus yn ein proses recriwtio yn gwarantu cyflogaeth. Byddwn yn gweithio i'ch paru â rôl sy'n cyd-fynd â'ch diddordebau ond efallai y cewch gynnig o rôl nad oeddech chi wedi'i hystyried yn flaenorol.

Pan fyddwn yn cytuno ar leoliad, byddwch yn derbyn cynnig o gyflogaeth gan y sefydliad derbyn.

Manyleb person

Cymwysterau:

Gradd prifysgol a enillwyd, neu a ragwelir, gyda dosbarth 2:1 neu 1af mewn unrhyw bwnc.*

Profiad:

Nid yw gwybodaeth sylfaenol neu brofiad yn ofynnol

Nodweddion personol:

- Gallu datrys problemau'n greadigol
- Cyfrannu'n effeithiol at dîm
- Sgiliau trefnu da
- Bod yn agored i weithio ar eich menter eich hun
- Gallu addasu i heriau newydd
- Bod yn ymrwymedig i hunanddatblygiad
- Bod yn agored i hunanadfyfrio

Erail:

- Rhaid bod gennych anabledd neu gyflwr hirdymor fel y'u diffiniwyd yn Neddff Cydraddoldeb 2010
- Rhaid eich bod yn gymwys i weithio yn y DU am hyd y lleoliad haf. Os ydych chi'n fyfyrwr rhyngwladol, cyfeiriwch at delerau eich cytundeb fisa

*Os yw amgylchiadau esgusodol sy'n gysylltiedig â'ch anabledd neu'ch cyflwr hir-dymor yn/wedi effeithio ar eich perfformiad academaidd, caiff hyn ei ystyried. Nodwch hynny'n glir lle gofynnir am y wybodaeth hon ar y ffurflen gais



Yn ystod y lleoliad roeddwn yn teimlo bod gen i lawer o ryddid a rheolaeth dros y profiad roeddwn i'n ei gael. Roeddwn i'n gallu datblygu fel roeddwn i eisiau, dilyn a dysgu wrth i fi fynd ymlaen. Rwy'n teimlo fy mod wedi paratoi'n dda nawr i ymgymryd â swyddi yn y dyfodol, mae wedi bod yn garreg gamu wych.



Ciara, Intern
BBC Studios

Disgrifiad o'r rôl

Hyd:

Hyd at dri mis. Mae'r rhan fwyaf o rolau'n rhai amser llawn, ond mae rhan-amser yn opsiwn os yw'n angenrheidiol fel addasiad gweithle.

Lleoliad:

Lleoliadau amrywiol, ledled y DU. Rydym yn cynnig cyfuniad o rolau swyddfa a chartref. Byddwn yn cynnig arweiniad os yw rolau wedi'u lleoli o bell.

Oriau:

Mae'r oriau swyddfa arferol yn debygol o fod rhwng 9am a 5pm, ond cynigir gweithio hyblyg mewn llawer o gwmnïau.

Llety:

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau llety ar gyfer cyfnod y lleoliad.

Cyflog:

Will meet or exceed the Living Wage Foundation recommended hourly rate: www.livingwage.org.uk

Meysydd y lleoliadau:

Bydd eich rôl yn amrywio gan ddibynnu ar natur y lleoliad rydych chi'n ei wneud.

Byddwn yn cynnig rolau gwych mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys:

- Cyfrifeg
- Gwasanaethau cwsmeriaid
- Dadansoddi data
- Peirianeg
- Cyllid
- Codi arian a datblygu busnes
- Adnoddau dynol
- TG
- Marchnata
- Rheoli prosiectau
- Cysylltiadau cyhoeddus a materion cyhoeddus
- Datblygu meddalwedd

Cyfrifoldebau:

Byddwch yn chwarae rôl allweddol mewn prosiectau diddorol a bydd gennych gefnogaeth eich rheolwr a'ch cydweithwyr ar hyd y ffordd.

Gallai cyfrifoldebau cyffredinol gynnwys cyfuniad o gymryd rhan mewn cyfarfodydd, gwneud gwaith ymchwil, ysgrifennu adroddiadau, creu cyflwyniadau, ymdrin â gwaith prosiect a gwaith gweinyddol cyffredinol. Bydd hyn yn dibynnu ar eich rôl a'ch cyflogwr derbyn.



Yr hyn y gall Change 100 ei gynnig i chi

- Proses recriwtio gynhwysol, a luniwyd i alluogi i chi ddisgleirio
- Profiad gwerthfawr â thâl gyda chyflogwr parchus, gan roi eich rhagolygon gyfa ar garlam
- Hyder wrth ddatgelu eich hunaniaeth
- Cefnogaeth i nodi a gofyn am addasiadau i'r gweithle
- Rhaglen datblygiad personol a mentora pwrpasol
- Grŵp o gymheiriaid sydd hefyd yn gyfranogwyr Change 100
- Cyfleoedd i ehangu eich rhwydwaith

Dyddiadau allweddol

22 Medi 2021

Y broses ymgeisio'n agor

6 Ionawr 2022, 2pm

Y broses ymgeisio'n cau

Ionawr-Chwefror 2022

Llunio rhestrau byr o ymgeiswyr a chanolfannau asesu

Mawrth-Mai 2022

Paru ymgeiswyr â lleoliadau

Mehefin 2022

Sefydlu a dechrau'r lleoliadau

Mehefin-Medi 2022

Cyfnod y lleoliad digwyddiadau datblygiad proffesiynol misol

Medi-Rhagfyr 2022

Parhau â'r rhaglen datblygiad proffesiynol a digwyddiad graddio ym mis Rhagfyr

Gwneud cais nawr

leonardcheshire.org/change100

Dyddiad cau 6 Ionawr 2022

#Change100

Leonard Cheshire Disability is a registered charity no: 218186 (England & Wales) and no: SC005117 (Scotland), and a company limited by guarantee registered in England no: 552847. VAT no: 899 3223 75. Registered office: 66 South Lambeth Road, London SW8 1RL.

**Rownd derfynol y Gwobrau
Israddedig 2018 – Menter
Anbledd Orau mewn
Profiad Gwaith**